

**Datganiad i'r Wasg 01.10.2021**

**Blwyddyn academiaidd newydd: Cylch Newydd o Grantiau Myfyrwyr gan yr Ulrike Michal Foundation for the Arts**

Hoffai ymddiriedolwyr yr Ulrike Michal Foundation for the Arts (Sefydliad Ulrike Michal i Gelfyddydau) gyhoeddi agor ceisiadau am grantiau myfyrwyr am yr eildro.

Mae'r Sefydliad yn gallu cynnig chwe o grantiau myfyrwyr hyd at £250 yr un i helpu myfyrwyr ddilyn cyrsiau yn y celfyddydau cain ac addurnol.

Dylai ymgeiswyr am y grantiau myfyrwyr fod naill ai'n byw ac yn astudio yng Ngogledd Cymru, Glannau Mersi a siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar y gororau, neu fod yn byw yn yr ardaloedd hynny cyn dechrau eu cwrs celfyddyd.

Meddai David Brown, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr *"Yn dilyn y cylch ariannu cyntaf llwyddiannus iawn, mae ymddiriedolwyr yr Ulrike Michal Foundation for the Arts yn falch o gyhoeddi ail gyfle i fyfyrwyr yn yr ardaloedd sy'n cwmpasu'r Sefydliad wneud cais am gymorth ariannol. Mae manylion llawn ar wefan y Sefydliad ac mae'r Ymddiriedolwyr yn edrych ymlaen at gael gwybod am eu cynlluniau a phrosiectau diddorol a chyffrous."*

**Y dyddiad cau ar gyfer Cylch 2 Ceisiadau am Grantiau Myfyrwyr yw 12fed Tachwedd 2021.**

Mae Ymddiriedolwyr y Sefydliad yn cadw'r hawl i newid nifer y grantiau gan ddibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

Bydd cyhoeddiad ynghylch Cylch 2 y Grantiau Craidd yn gynnar yn 2022.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag: [info@umffta.org](mailto:info@umffta.org)**

**I wneud cais, gwelwch wefan y sefydliad: [www.umffta.org/grant-applications](http://www.umffta.org/grant-applications)**

## Gwybodaeth Cefndir

Mae Ulrike Michal Foundation for the Arts (Sefydliad Ulrike Michal i Gelfyddydau) yn bodoli “i hyrwyddo, hybu ac ymestyn caru, gwerthfawrogi, mwynhau, deall ac arfer y celfyddydau cain, addurnol a chymhwysol ymysg pobl o bob oed trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celfyddyd, eiddo hanesyddol ac yn y gymuned yn gyffredinol, fel unigolion ac ar y cyd, fel cyfranogwyr a gwylwyr,” ar draws Gogledd Cymru, Glannau Mersi a siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar y gororau.

Fe symudodd Ulrike Michal i Loegr ym mis Tachwedd 2006 o’i chartref yn y Swistir i weithio fel niwrolegydd a llawfeddyg milfeddygol yn Ysbyty Milfeddygol Chestergates, rhwng Ellesmere Port a Chaer. Tra bu yno, cafodd enw rhyngwladol ymysg perchenogion cŵn a chathod am ei medrusrwydd mewn moddion milfeddygol a’i sgiliau fel llawfeddyg.

Ochr yn ochr â’i gyrfa broffesiynol, roedd gan Ulrike gariad gydol oes at gelfyddyd, a chafodd lawer o bleser fel artist gweithredol, fel aelod bywiog o’r Liver Sketching Club, yn dilyn ei diddordeb yn artistiaid y Dadeni yn yr Eidal, ac fel myfyriwr rhan-amser y celfyddydau cain ym Mhrifysgol Bangor, Gogledd Cymru. Bu farw Ulrike Michal o ganser ar 6<sup>ed</sup> Ebrill 2016, yn 39 oed.

Mae’r Sefydliad wedi dewis rhanbarth Gogledd Cymru, Glannau Mersi, a Siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar gyfer ei weithgareddau oherwydd mai dyma’r lleoedd a wyddai Ulrike orau ac a garai.